TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# HNC Peirianneg (Gweithgynhyrchu Uwch)



**Yn gryno**

Dyma raglen alwedigaethol arbenigol sydd â phwyslais cryf ar y cysylltiad â byd gwaith. Mae'r cwrs yn cynnig sylfaen gadarn yn y prif gysyniadau a sgiliau ymarferol sydd eu hangen yn y sector, ac mae'n cael ei gydnabod yn genedlaethol gan gyflogwyr.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...ydych eisiau gyrfa mewn peirianneg

...yw'n well gennych gyrsiau galwedigaethol, ymarferol

...ydych yn rhifog, yn greadigol ac yn gallu cymell eich hun

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r cwrs yn cynnig sylfaen gadarn yn y prif gysyniadau a sgiliau ymarferol sydd eu hangen yn y sector.

Byddwch yn astudio unedau, gan gynnwys:

Blwyddyn 1

Dylunio Peirianneg
Mathemateg Peirianneg
Gwyddoniaeth Peirianneg
Rheoli Prosiect Peirianneg Proffesiynol
Robotiaid Diwydiannol
Egwyddorion Digidol
Diwydiant 4.0
Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur ar gyfer Peirianneg

Byddwch yn dysgu drwy gyfuniad o ddarlithoedd, tiwtorialau a sesiynau ymarferol, ac yn cael eich asesu drwy waith cwrs ac arholiadau.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Fel arfer, bydd arnoch angen o leiaf un o'r canlynol:

Proffil BTEC Lefel 3 perthnasol gyda Theilyngdod/Teilyngdod
DD mewn cyrsiau Safon Uwch
Graddau DE mewn cyrsiau Safon Uwch, a gradd C Bagloriaeth Cymru
Mynediad i Addysg Uwch lle'r ydych wedi cael Diploma Llwyddo gyda 45 Llwyddo

Yn ogystal â: Llwyddo mewn tri phwnc TGAU ar radd C neu uwch, gan gynnwys Mathemateg ac Iaith Saesneg (neu gyfwerth). Bydd myfyrwyr hyn nad ydynt yn bodloni'r cymwysterau academaidd, ond sydd â phrofiad perthnasol yn y diwydiant, yn cael eu hystyried yn unigol drwy gyfweliad.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus, gallech fynd yn eich blaen i weithio yn un o'r meysydd awyrenneg, modurol neu gyfansoddion, a meysydd peirianneg cysylltiedig. Gallech hefyd fynd ymlaen i astudio ymhellach, drwy wneud yr HND neu un o'r graddau peirianneg.